OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 2880 (Cy.308)

RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD, CYMRU

Rheoliadau Perygl Llifogydd (Diwygio) (Cymru) 2011

Gwnaed - - - -	*30 Tachwedd 2011*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*1 Rhagfyr 2011*
Yn dod i rym - -	*22 Rhagfyr 2011*

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) o ran rheoli perygl llifogydd.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972.

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Perygl Llifogydd (Diwygio) (Cymru) 2011; maent yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 22 Rhagfyr 2011.

Diwygiadau

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Perygl Llifogydd 2009(**3**) fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 1(3) yn lle'r geiriau "these regulations came into force" rhodder "22nd December 2010".

(3) Yn lle rheoliad 4(2) rhodder—

"(2) "Reservoir" means a large raised reservoir as defined by the Reservoirs Act 1975.".

(4) Yn lle rheoliad 36(2) rhodder—

"(2) The Environment Agency and an authority listed in paragraph (3) must comply with a request of a lead local flood authority or the Minister to provide information reasonably required in connection with the exercise of functions under these regulations.".

(**1**) O.S. 2011/1683.
(**2**) 1972 p.68.
(**3**) O.S. 2009/3042 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2010/1102.